## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483 (FFIN POWYS/SIR GAERFYRDDIN I LANYMYNECH, POWYS) (CYFYNGIADAU CYFLYMDER A DIM GODDIWEDDYD DROS DRO) 2025

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A483, neu gerllaw iddi, rhwng ffin Powys/Sir Gaerfyrddin a Llanymynech, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder dros dro o 40 mya, 30 mya neu 10 mya ar y darn o gefnffordd yr A483 o ffin sirol Powys/Sir Gaerfyrddin, 350 o fetrau i'r de-orllewin o'r fynedfa i'r eiddo a elwir Bylchau ger Dinas-y-bwlch i ganolbwynt ei chyffordd â'r U2052 i Ben-y-foel yn Llanymynech. Disgwylir y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn weithredol yn ystod gwaith confoi a ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hynny.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 4 Chwefror 2025. Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad dros dro, y bydd eu hyd a'u lled yn amrywio, yn weithredol yn ysbeidiol o 08:00 o'r gloch ar 4 Chwefror 2025 am gyfnod hwyaf o 18 mis. Bydd hysbysiad am yr holl waith yn ystod y cyfnod hwn yn cael ei arddangos cyn iddynt ddechrau.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print bras gan y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A483 TRUNK ROAD (POWYS/CARMARTHENSHIRE COUNTY BOUNDARY TO LLANYMYNECH, POWYS) (TEMPORARY SPEED RESTRICTIONS AND NO OVERTAKING) ORDER 2025

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A483 trunk road between the Powys/Carmarthenshire county boundary and Llanymynech, Powys.

The effect of the Order is to impose a temporary 40 mph, 30 mph or 10 mph speed limit on the length of the A483 trunk road from the Powys/Carmarthenshire county boundary, 350 metres south-west of the access to the property known as Bylchau near Sugar Loaf to the centre-point of its junction with the U2052 to Penyfoel at Llanymynech. The 10 mph speed limit is expected to apply during convoy working and no overtaking will be permitted during these times.

The Order comes into force on 4 February 2025. The temporary restrictions and prohibition, whose extent will vary, are expected to operate intermittently from 08:00 hours on 4 February 2025 for a maximum period of 18 months. Notice of all works during this period will be displayed before they start.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government